



To: All Fellows

8 May 2019

Dear Fellow

Annual General Meeting, 22 May 2019

The Annual General Meeting of the Learned Society of Wales will be held in the **Physiology A Lecture Theatre in the Sir Martin Evans Building**, Cardiff University (located on Museum Avenue, Cardiff CF10 3AX), on Wednesday, 22 May 2019 at 3.45 p.m. Further information regarding the location can be found at:

<https://www.cardiff.ac.uk/visit/accessibility/cathays-park-campus/sir-martin-evans-building>

Please click on 'University Maps' on the right hand side of the page and search for 'Sir Martin Evans Building' in the list of locations again on the right hand side of the page.

There will be a simultaneous translation service available during the meeting and Fellows are welcome to address the Annual General Meeting in either the English language or the Welsh language.

During the meeting, newly-elected Fellows who are present (and any Founding Fellows and Fellows elected between 2011 and 2018 who have not yet been formally introduced) will be formally welcomed and introduced. Their names will be read out in turn and each will be greeted by the President and will sign the Roll of Fellows. It is important, therefore, that the list of Fellows present is accurate.

If you have not yet advised the office of your intention to be present but do now expect to attend the meeting, please let me know by email or telephone as soon as possible. Your name will then be added to the list of Fellows who are to be introduced and welcomed. (Details of the procedure that will be followed on the day may be found under Item 9 in the Agenda papers.)

The meeting will conclude with the President's Annual Address followed by a Fellows Dinner and a Medal Awards Ceremony to be held at the Royal Welsh College of Music and Drama at 6.00p.m. The President, Sir Emyr Jones Parry GCMG FInstP PLSW, very much hopes that you will be able to join him.

Yours sincerely

Amanda Kirk
Clerk to Council
A Kirk@lsw.wales.ac.uk
(029) 2037 5054

Royal Patron – HRH The Prince of Wales | Noddwr Brenhinol – EUB Tywysog Cymru



At: Cymrodyr y Gymdeithas

8 Mai 2019

Annwyl Gymrawd

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 22 Mai 2019

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn Ffisioleg A, Adeilad Syr Martin Evans, Prifysgol Caerdydd (a leolir ar Rhodfa'r Amgueddfa, Caerdydd CF10 3AX), ddydd Mercher, 22 Mai 2019 am 3.45y.p. Ceir gwybodaeth bellach am y lleoliad yn:

<https://www.cardiff.ac.uk/visit/accessibility/cathays-park-campus/sir-martin-evans-building>

Cliciwch ar 'University Maps' ar ochr dde'r dudalen ac yna chwilio am 'Sir Martin Evans Building' yn y rhestr ar y dde os gwelwch yn dda.

Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfarfod ac mae croeso i Gymrodyr annerch y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol naill ai yn Gymraeg neu Saesneg.

Yn ystod y cyfarfod, caiff Cymrodyr sydd newydd eu hethol ac sydd yn bresennol (yn ogystal ag unrhyw Gymrodyr Cychwynnol neu Gymrodyr a etholwyd rhwng 2011 a 2018 nad ydynt eto wedi cael eu cyflwyno) eu croesawu a'u cyflwyno'n ffurfiol. Darllenir eu henwau fesul un a bydd y Llywydd yn cyfarch pob un cyn iddynt lofnodi Cofrestr y Cymrodyr. Mae'n bwysig, felly, bod y rhestr o Gymrodyr a fydd yn bresennol yn gywir.

Os nad ydych eto wedi hysbysu'r swyddfa am eich bwriad i fod yn bresennol ond bellach yn disgwyl dod i'r cyfarfod, gofynnir i chi roi gwybod i mi drwy e-bost neu alwad ffôn cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda. Yna caiff eich enw ei ychwanegu at y rhestr o Gymrodyr sydd i'w cyflwyno a'u croesawu. (Ceir manylion am y weithdrefn a ddilynir yn ystod y cyfarfod dan Eitem 9 ar yr Agenda ym mhapurau'r cyfarfod).

Bydd y cyfarfod yn dod i ben gydag Anerchiad Blynyddol y Llywydd a ddilynir gan Ginio'r Cymrodyr a Seremoni Wobrwyo Medalau i'w cynnal yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru am 6.00y.p. Mae'r Llywydd, Syr Emyr Jones Parry GCMG FInstP PLSW yn mawr obeithio y byddwch yn gallu ymuno ag ef.

Yn gywir

Amanda Kirk
Clerc i'r Cyngor
Akirk@cddc.cymru.ac.uk
(029) 2037 5054